Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Mai 2019 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 May 2019 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/*Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors John Adams-Lewis *(***yn y gadair***/in the chair),* Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill*,* Trystan Phillips, Shan Williams a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.
The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb, yn cynnwys y cyfieithydd ar y pryd, gohebydd y wasg ac aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol i'w gyfarfod olaf fel Maer. Cyfeiriodd unwaith eto at farwolaeth un o rieni'r cynghorwyr, sef mam y Cyng. Debra Griffiths. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at farwolaeth Mr Marteine Richards, perchennog cwmni Bysys Brodyr Richards; bu Marteine yn gefnogol iawn i gymaint o sefydliadau'r dref a'r ardal. Mynegwyd teimladau'r cyngor yn y ffordd arferol.
Ar nodyn hapusach, llongyfarchwyd y Cyng. Trystan Phillips ar ei gamp yn cyrraedd copaon y tri mynydd (Ben Nevis, Scafell Pike a'r Wyddfa); cafodd gwmni ei frodyr a'i dad gan godi swm sylweddol at glefyd motor neurone. Yn yr un modd llongyfarchwyd y cigydd Tom Samways, Crafters Cwtch a bwyty Crwst am gael eu gwobrwyo gan fudiad "Countryside Alliance" yn ddiweddar. Braf oedd darllen yn y "Sunday Times" bod tref Aberteifi wedi ei chynnwys yn y rhestr o ddeg o drefi gorau Cymru. Rhaid hefyd estyn diolch i bwyllgor Dydd Sadwrn Barlys am barhau i sicrhau'r sioe unigryw yma yn y dref, a'r swyddogion a drefnodd dathlu Daucanmlwyddiant Mordaith yr "Albion" am gynnal gweithgareddau diddorol a llwyddiannus. Bu Mr Clive Evans a hefyd Merched y Criw Glo wrthi'n ddyfal eto yn codi arian at elusennau haeddiannol iawn – diolchwn yn gynnes iddynt.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone, including the simultaneous translator, the press reporter and members of the public to his final council meeting as Mayor. He referred once again to the loss of a member's parent; condolences were offered to Cllr Debra Griffiths on the passing of her mother. The town has also lost one of its benefactors in Mr Marteine Richards, proprietor of Richard Bros. Coaches who had supported so many local causes. Members showed their condolences in the usual manner.
On a happier note, Cllr Trystan Phillips was congratulated on his feat in climbing the three peaks (Ben Nevis, Scafell Pike and Snowdon) with his brothers and father in a fund-raising event for Motor Neurone Disease. Local butcher Tom Samways, Crafters Cwtch and Crwst were awarded prizes by the Countryside Alliance in Cardiff Bay. Cardigan was featured on 14 April in a "Sunday Times" article which noted the ten best places to live in Wales. Gratitude was extended to the committee of the Barley Saturday Show for once again organising this event which is unique to Cardigan, and the officials who organised the "Albion" Bicentenary celebration for their successful and interesting programme of events. Mr Clive Evans and the Coal-Carrying Girls were commended once again for their feats in raising money for worthy local and national charities.

2. Cyflwyniad: Mr Llŷr Edwards, Tai Ceredigion Cyf.
Presentation: Mr Llŷr Edwards, Tai Ceredigion Cyf.
Croesawodd y Maer Mr Edwards i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i roi sylwadau diweddaraf y cynllun i'r aelodau. Caiff y garejis i gyd eu dymchwel er mwyn codi dau byngalo i'r anabl ar y safle. Roedd yr aelodau yn unfrydol bod angen cynyddu hyd y brydles o 30 mlynedd. Cytunodd Mr Edwards osod yr argymhelliad ar agenda cyfarfod nesaf y bwrdd rheoli.

The Mayor welcomed Mr Llŷr Edwards to present the latest plans regarding the development of the Maesglas play area. The garages are all to be dismantled and two purpose-built bungalows for the disabled are planned for the site. Members were unanimous in requesting an extension to the proposed lease of 30 years. Mr Edwards agreed to table the recommendation at a future board meeting.

3. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths.

4. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Ebrill
Confirmation of Minutes of 2 April Council Meeting.
Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 2 Ebrill yn gywir.
Cllr Marilyn Farmer proposed that the 2 April council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.
Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.
There were no matters arising from the minutes.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.
Activities of the Mayor. Dates for the diary.
Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Ebrill yn y cyfarfod.
The Mayor's Diary of Events for April was distributed at the meeting.

8. Cynllunio / Planning. **Ni dderbyniwyd ceisiadau.** No applications received.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	*Disgrifiad / Description*	*Côd / Code*	*Rhif y Siec Cheque No.*	*Swm (TAW) / Sum (VAT)*
1/5/19	Tai Aberteifi Ltd.: *Rhent Swyddfa'r Cyngor* / Rent of Council Office (*Ebrill /* April*).*	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (2 & 16/4/19)	A9	4728	£50.00 (0.00)
	Band Lydan (Mai) / Broadband (May)	A20	4728	£20.00 0.00
1/5/19	L. W. Jones*: Cyflog y Clerc /* Clerk's Salary (*Ebrill /* April)	A5	4729	£763.19 (0.00)
24/4/19	Llinos Jones: *Cyfieithu ar y pryd* / Simultaneous translation (2/4/19)	A18	4730	£63.30 (0.00)
1/5/19	The Royal British Legion Cardigan Branch: *Plethdorch* / Wreath (Anzac Day service)	A23	4731	£25.00 (0.00)
4/4/19	G. K. Beaulah & Co. Ltd.: *10 Tarian y Dref* / Town Shields	B5	4732	£347.40 (57.90)
28/3/19	Lisa Hellier: *Cynllunio map newydd y dref* / Design of new town map	C2	4733	£750.00 (0.00)
29/4/19	Mr Ken Griffiths (*Archwilydd Mewnol*/Internal Auditor): *Cyfrifon y cyngor* / Council accounts 2018-19	A13	4734	£300.00 (0.00)
29/4/19	*Caffi Sgwâr* Finch Square Café: *Stampiau* / Stamps	A8	4735	£92.08 (0.00)
30/4/19	*Bachan Deche* / Handyperson (*Ebrill / April*)	A19	4736	£323.40 (53.90)
1/5/19	*Argraffwyr E. L. Jones* Printers: *Certificates*/Tystysgrifau *(Nadolig/*Christmas*), Papur, Amlenni,* Stationery, *Rheolau Sefydlog /* Standing Orders (£196).	A7	4737	£336.40 (23.40)
	15,000 Town maps, A2 Posters (Action Plan)	C2	4737	£1,004.40 (14.40)

Cynigiodd y Cyng. Siân Maehrlein bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Siân Maehrlein proposed that the listed bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

	Quotations received for goods for Skateboard Park:			
18/4/19	SFD Street Furniture Direct*: Meinciau i'r Maes Sgrialu / Benches for the Skateboard Park*	C5	4738	£4,140.00 (690.00)
18/4/19	Jaydee: *Bin sbwriel i'r Maes Sgrialu* / Heavy duty outdoor steel litter bin for the Skateboard Park	C5	4739	£363.54 (60.59)

Trafodwyd y ddau amcangyfrif a dderbyniwyd am nwyddau i'r Maes Sgrialu. Gan fod telerau Grant y Loteri Mawr o £4,704 yn dirwyn i ben ym mis Mai eleni a byddai'n orfodol ad-dalu'r arian os na gwarir yr arian, cynigiodd y Cyng. Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod y cyngor yn archebu'r nwyddau. Mynegodd y Cyng. John Adams-Lewis ei anniddigrwydd am bris uchel y nwyddau a phleidleisiodd yn erbyn y cynnig.

A discussion ensued regarding placing an order for the above-listed items for the Skateboard Park. As the grant of £4,704 received from the Big Lottery Fund will expire in May of this year if the listed goods are not purchased and the money will need to be repaid, Cllr Richard Jones proposed that the order be placed; seconded by Cllr Marilyn Farmer.
Cllr John Adams-Lewis raised concerns at the apparent high cost of the goods and voted against the motion.

***Derbyniadau/*Receipts:**

30/4/19 *Cyngor Sir Ceredigion* County Council: *Praesept*/Precept (1/3) £27,998.49

Cyfraniadau'r Maer at elusennau a sefydliadau yn ystod y flwyddyn 2018-19.
The Mayor's donations to charities and organisations during the year 2018-19

Cronfa'r Maer / Mayor's Fund (Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis):

Gofal Canser Aberteifi / Cardigan Cancer Care	£200	
Sefydliad Prydeinig y Galon / British Heart Foundation	£200	
Cymdeithas MND / Motor Neurone Disease	£200	
Ymchwil yr Arennau / Kidney Research UK	£200	
Cŵn Tywys y Deillion / Guide Dogs for the Blind (Cymru)	£200	*Cyfanswm*/Total £1,000

Rhoddion y Maer / Mayor's donations (Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis):

Criw cario'r glo / Coal-carrying crew from Cardiff	£30	
Bore Coffi Man Chwarae Maesglas Play Area	£50	
Gŵyl Fawr Aberteifi	£75	
Carnifal Aberteifi Carnival	£40	
RNLI: Oedfa Garolau / Carol Service (St Mary's)	£25	
Poppit Sands Lifesavers Club (Coffee Morning)	£20	
Cardigan Girl Guides Pantomime (St Dogmaels)	£10	
Air Training Corps Coffee Morning	£150	
Parkinson's Disease fund-raising event	£200	
Brondesbury Lodge: Bore Coffi / Coffee Morning	£25	*Cyfanswm*/Total £625

Cyfraniadau o lwfans y Maer / Donations from Mayor's allowance (Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis):

Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool	£1,000	
Apêl leol (Local appeal) Eisteddfod Ceredigion 2020	£500	
Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Football Club	£250	
Clwb Achub Bywyd / Poppit Sands Surf Lifesaving Club	£200	
Canser y Prostrad / Prostrate Cancer	£200	
Cymdeithas Glawcoma / Glaucoma Association	£200	
Sefydliad y Cymalau / Arthritis Association	£200	
Ambiwlans Sant Ioan / St John Ambulance Brigade	£200	
Therapies for Services – CIC	£20	
New Life Christian Centre, Quay Street (Nadolig)	£25	
Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan RFC (dinner)	£30	
Sioe Amaethyddol Aberteifi / Cardigan Show (dinner)	£20	
Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude Cardigan/Brioude Twinning Committee (dinner)	£35	
Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Show (dinner)	£30	
Parkinson's Committee (dinner)	£40	
Noson Goffi Yr Hafod Home Coffee Evening	£20	
Aduniad / Reunion (1970 Ysgol Uwchradd Aberteifi)	£20	
Ysgol y Cwm, Patagonia (plâc / plaque)	£100	*Cyfanswm*/Total £3,090

Nid yw'r Maer wedi hawlio unrhyw gostau teithio yn ystod ei flwyddyn faerol.
The Mayor has not claimed any travelling expenses during his year of office.

Cytunwyd bod y cyngor yn nodi haelioni'r Maer yn enwedig ei roddion allan o "Lwfans y Maer".

It was agreed that the council notes the Mayor's generosity in particular the donations contributed from the "Mayor's Allowance".

10. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Elaine Evans:

(i) Mae'r Cyng. Evans wedi datrys problemau parcio ar Ffordd Aberystwyth a hefyd ar hyd Pendre.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

(i) Mae Adran Briffyrdd a Phwyllgor Craffu'r cyngor sir wedi trafod y mater o osod atalfeydd ger y ffordd fawr ar Heol Dinbych y Pysgod yn dilyn cyfres o ddamweiniau. Mae angen tocio canghennau coed hefyd ar ymyl y ffordd.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

(i) Llongyfarchodd y Cyng. Miles y gweithwyr am y gwaith graffiti artistaidd a welir ger afon Teifi. Disgwylir gwahoddiad i'r agoriad swyddogol.

(ii) Mae'r cyngor sir wedi cytuno i osod bolard ar gei'r Tywysog Siarl i atal cerbydau rhag parcio yno. Rhaid gwarchod y safle hefyd am ei fod yn ardal ddialcohol.

(a) Cllr Elaine Evans:

(i) Cllr Evans has resolved parking problems experienced on the Aberystwyth Road and also in Pendre.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

(i) The county council Highways Department and the Scrutiny Committee have discussed the placing of barriers on the Tenby Road leading from Cardigan following a number of incidents. The trees alongside the highway need severe pruning also.

(c) Cllr Catrin Miles:

(i) Cllr Miles congratulated the crew responsible for the artistic graffiti created alongside the river Teifi. An invitation to the official opening is expected soon.

(ii) The county council has finally agreed to place a bollard at Prince Charles quay to prevent the parking of vehicles. Regular patrolling of this alcohol-free zone by the police is requested.

11. **Gohebiaeth** / Correspondence.

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen *Letters to be noted / read*	*Sylwadau / Comments*
20	CSC / CCC (Elin Jones): *Adain cau'r ffordd* / Road closure – *Dydd Sadwrn Barlys* / Barley Saturday Show – 27/4/19, 13:30-16:00	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 4 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 4 April.
21	CSC / CCC (Elin Jones) *Adain cau'r ffordd* / Road closure – *Stryd y Santes Fair* / St Mary Street, 15/5/19-16/5/19, *Gwaith ar y cerbffyrdd /* Works on carriageway	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 30 April.
22	CSC / CCC (Mererid Jones) *Gwasanaeth Casglu Gwastraff Newydd /* New Waste Collection Service, commencing 10/5/19	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board. *Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 25 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 25 April.
23	CSC / CCC (Stephen Johnson): *Taliad cyntaf o'r praesept* = £27,998.49. First payment of precept (2nd instalment to be paid on 31 July and the final instalment on 31 October)	*Nodwyd.* Noted.
24	CSC / CCC (Mererid Jones): *Poster Casgliadau Gwastraff adeg y Pasg /* Easter 2019 Waste Collection Poster	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board.
25	CSC / CCC (Mererid Jones): *Poster Casgliadau Gwastraff Calan Mai a'r Sulgwyn /* May Day and Whitsun 2019 Waste Collection Poster	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board. *Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 30 April.
26	CSC / CCC (Democratic Services): *Cylchlythyr Newyddion y Panel Heddlu a Throseddu*. Newsletter of the Police & Crime Panel	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 30 April.

27	CSC / CCC (Glynis Davies): *Posteri Etholiad Seneddol Ewropeaidd.* European Parliamentary Election poster, 23/5/19.	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board.
28	CSC / CCC *(Gerwyn Jones): Ymateb i gais y cyngor am lanhau'r palmentydd.* Response to the council's request for street cleaning measures.	*Nodwyd.* Noted.
29	CSC / CCC (Wendy Rattray): *Enwebu aelod i gynrychioli'r cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Aberteifi.* Nomination of a member to serve on the Governing Body of Ysgol Gynradd Aberteifi.	*Cytunwyd trafod yr enwebiad yng nghyfarfod mis Mehefin y cyngor llawn.* It was agreed to discuss the nomination at the June full council meeting.
30	CSC / CCC (Katy Spain): *Ymateb ynglŷn â chais y cyngor am fannau parcio di-dâl i ddefnyddwyr y Pwll Nofio.* The response regarding the council's request for free parking for Swimming Pool users.	No concessions are afforded in car parks for users of leisure facilities. The trustees can pursue the option of applying for a licence at a charge determined by the county council's fee and charges legislation. The clerk was asked to obtain annual costs for 5 parking bays.
31	CSC / CCC (Louise Harries): *Cytundeb cyfreithiol ynglŷn â grant i'r Maes Sgrialu*. Maintenance Agreement regarding Play Equipment under Grant funding at Cardigan Skateboard Park, Maes Radley between Cyngor Sir Ceredigion County Council and Cardigan Town Council.	*I'w gymeradwyo gan Gyngor Tref Aberteifi.* To be approved by Cardigan Town Council. *Cytunwyd gofyn i gyfreithiwr y cyngor archwilio'r ddogfen.* It was agreed to request the council's solicitor to scrutinise the document.
32	CAVO: *Cyflwyniad a Chymorthfeydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.* *The National Lottery Heritage Fund Presentation and Funding Surgery, Guildhall, 2/5/19*	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board. *Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 24 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 24 April.
33	Ceredigion WASPI: *Sesiwn cynghori.* Advice session at Cardigan Library on 15/5/19, 2:30-4:30pm.	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed on the notice board.
34	*Un Llais Cymru: Enwebu aelod i fynychu cyfarfodydd chwarterol y mudiad.* One Voice Wales: Nomination of a member to attend the quarterly meetings.	*Cytunwyd trafod yr enwebiad yng nghyfarfod mis Mehefin y cyngor llawn.* It was agreed to discuss the nomination at the June full council meeting.
35	Mr Martin Heuter: *Awgrymiadau ynglŷn a newid hinsawdd.* Recommendations regarding climate emergency measures.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30 Ebrill.* Forwarded to all councillors on 30 April.
36	Ms Ceri Evans: *Materion parcio cerbydau ar Heol y Gogledd.* Parking issues at North Road.	*Cynghorwyd Ms Evans i gysylltu â Ms Katy Spain, swyddog parcio'r cyngor sir.* It was agreed to advise Ms Evans to contact the county council parking officer.
37	Mrs Gaynor Jenkins: *Rhestr o fusnesau lleol sydd wedi eu henwebu ar gyfer derbyn gwobrau ym Mae Caerdydd.* List of local businesses who have received commendations from the Countryside Alliance awards at Cardiff Bay: Crafters Cwtsh, Tom Samways, Crwst.	*Nodwyd gan y Maer yn eitem 1.* Noted by the Mayor in item 1.
38	*Canolfan Therapi Plant Bobath Children's Therapy Centre: Cais am gymorth ariannol.* Application for financial support.	*Caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.* The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
39	Age Cymru Ceredigion *Cais am gymorth ariannol.* Application for financial support.	*Caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.* The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
40	*Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn: Gwahoddiad i Seremoni Sefydlu'r Maer.* Newcastle Emlyn Town Council: Invitation to the Mayoral Installation Ceremony, Ysgol Gyfun Emlyn, 15/5/19, 7:30pm	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer Etholedig.* The invitation has been forwarded to the Mayor Elect.
41	*Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Gwahoddiad i Seremoni Sefydlu'r Maer.* Lampeter Town Council: Invitation to the Mayoral Installation Ceremony, The Old Hall, University of Wales, Trinity Saint David, 3/5/19	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.* The invitation has been forwarded to the Mayor.

42	*Cyngor Tref Aberystwyth: Gwahoddiad i Seremoni Sefydlu'r Maer.* Aberystwyth Town Council: Invitation to the Mayoral Installation Ceremony, The Old College, 10/5/19, 6:30pm and the Mayoral Parade and Service at Morfa Chapel on Sunday, 12 May at 2:00pm	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.* The invitation has been forwarded to the Mayor.
43	*Clwb Rygbi Aberteifi: Gwahoddiad i Ginio Blynyddol.* Cardigan RFC: Invitation to the Annual Dinner and Presentation at the Cliff Hotel, 10/5/19, 6:30 for 7:00pm.	*Yn absenoldeb anorfod y Maer, mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer Etholedig. With the unavoidable absence of the Mayor, the invitation has been forwarded to the Mayor Elect.*
44	*Cymdeithas y Cardi Bach: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i agoriad swyddogol amgueddfa yr hen rheilffordd yn Login.* Invitation to the Mayor and Mayoress to the railway heritage collection at Login railway station on 14 May at 2:00pm.	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.* The invitation has been forwarded to the Mayor.
45	*U3A: Gwahoddiad i'r Maer Etholedig i'r Prynhawn Agored.* Invitation to the Mayor Elect to attend the Open Afternoon on 23/5/19 in Ystafell Radley.	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer Etholedig.* The invitation has been forwarded to the Mayor Elect.
46	*Bro Teifi Tenants Association:* *Cydnabyddiaeth am grant y cyngor.* Acknowledgement of the council grant.	*Nodwyd.* Noted.
47	*Cyngor Ar Bopeth / Citizens Advice Bureau:* *Cydnabyddiaeth am grant y cyngor.* Acknowledgement of the council grant.	*Nodwyd.* Noted.
48	*Aberteifi 2010:* *Cydnabyddiaeth am grant y cyngor.* Acknowledgement of the council grant.	*Nodwyd.* Noted.
49	*Theatr Byd Bychan /* Small World Theatre: *Cydnabyddiaeth am grant y cyngor.* Acknowledgement of the council grant.	*Nodwyd.* Noted.
50	*Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu: Rhaglen cyllid lle mae grantiau o rhwng £5,000 a £10,000 ar gael i grwpiau a sefydliadau ar draws yr Heddlu.* Police & Crime Commissioner: Funding programme where grants of between £5,000 and £10,000 are available to groups and organisations across the Force regarding positive impact on the security and safety of local communities.	*Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 2 Mai.* Forwarded to all councillors on 2 Mayl. *Nodwyd.* Noted.
51	*Cymorth Ar Bopeth: cais am lythyr o gefnogaeth.* Citizens Advice Bureau: Application for a letter of support	*Mae'r clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth.* The clerk has forwarded a letter of support.
52	Mr Ken Griffiths (*Archwilydd Mewnol*/Internal Auditor): Adroddiad yn dilyn yr archwiliad ar gyfrifon 2018-19 a gynhaliwyd ar 12 Ebrill. Internal Audit Report of the 2018-19 council financial accounts completed on 12 April.	*Blaenyrrwyd copi o'r Adroddiad a hefyd tudalennau 2, 3 a 4 o'r Ffurflen Flynyddol yr Archwilydd Allanol (Grant Thornton) i'r aelodau ar 16 Ebrill.* The Internal Audit Report was forwarded with pages 2, 3 and 4 of the External Auditor's Annual Return (Grant Thornton) to all members on 16 April.
53	The Pensions Regulator: Confirmation that Cardigan Town Council has completed a re-declaration of compliance with The Pensions Regulator under the Pensions Act 2008, dated 13 April 2019.	*Nodwyd.* Noted and filed.
54	*Adroddiad y Bachan Deche (Ebrill)* Handyperson's Report (April)	*I'w drafod tan eitem 13.* To be discussed under item 13.

Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd* / Road Closures Officer
Eifion Evans: *Prif Weithredwr /* Chief Executive
Gerwyn Jones: *Rheolwr Strydlun Trefol /* Urban Streetscene Manager
Katy Spain: *Rheolwr Gwasanaethau Parcio* / Parking Services Manager
Louise Harries: *Cyfreithwraig* / Solicitor
Mererid Jones: *Ailgylchu* / Recycling
Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol* / Head of Financial Service
Wendy Rattray: *Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr* / Governor Support Services

12. Cyflwyniad o "Datganiadau Cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi" a "Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a 2)" o'r Ffurflen Flynyddol Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2018-19.

Presentation of "Accounting Statements 2018-19 for Cardigan Town Council" and "Annual Governance Statements (Parts 1 & 2)" of the Community and Town Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2019 and the Internal Audit Report 2018-19. The clerk also presented the explanations of significant variances on the Accounting Statements *(see table below).*

As the Responsible Financial Officer of Cardigan Town Council, the clerk wishes the following to be clarified and noted as per "Accounting Statements 2018-19".

Variances 2018-19

Notes submitted by Grant Thornton (External Auditors): "We require explanations for significant variances (increases or decreases) of more than 15% between 2018 and 2019. Variances of less than 15% need not be explained. Your explanations must be quantified."

Line 3 (Total other receipts)	*£*
Figure in 2019 column	26,248
Figure in 2018 column	15,035
	+11,213 (+74.6%)
Reason	
Grant received for Pentop Play Area	14,547

Line 6 (Total other payments)	
Figure in 2019 column	94,205
Figure in 2018 column	116,895
	–22,690 (–19.4%)
Reason	
Pentop Play Area ground development by contractor in previous financial year	23,739

Line 12 (Total fixed assets and long term assets)	
Figure in 2019 column	269,557
Figure in 2018 column	230,374
	+39,183 (+17.0%)
Reason	
Finger posts added to the list in January 2019 (Budget meeting)	5,000
Town maps added to the list in January 2019	7,500
Play equipment for Pentop Play Area added to the list in January 2019	25,000

Cynigiwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn cadarnhau adroddiad yr Achwilydd Mewnol a'r Datganiadau Cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi ac wedi ateb Rhan 1 a Rhan 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd pawb yn gytûn a chymeradwywyd yr Adroddiad.

Arwyddwyd y ddogfen gan y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mr L. Wynford Jones, ym mhresenoldeb y cyngor ar 7 Mai 2019.

It was proposed by Cllr Siân Maehrlein and seconded by Cllr Eline Evans that the council confirms the acceptance of the Internal Auditor's report and the Accounting Statements 2018-19 for Cardigan Town Council and have answered the questions in Part 1 and Part 2 of the Annual Governance Statement. All members were in agreement and approved the Report.

The "Notice of appointment of the date for the exercise of elector's rights" is to be displayed giving any interested person the opportunity to inspect the accounts and books, etc. at the council office from the 1st July to the 26th July 2019.

The Annual Return was signed by the Chairperson, Cllr John Adams-Lewis, and the Responsible Financial Officer, Mr L. Wynford Jones, in the presence of the council, 7 May 2019.

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Ebrill.
Confirmation of 16 April Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion 16 Ebrill yn gywir.
Cllr Shan Williams proposed that the 16 April minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1489 (*Croeso'r Cadeirydd*): Cadarnhawyd yr argymhelliad bod y rhoddion i'r elusennau/sefydliadau lle nad oedd cynrychiolwyr yn bresennol yn y Seremoni Cyflwyno i dderbyn y rhodd yn cael eu diddymu yn unol â'r canlynol a ymddangosodd yn y gwahoddiad: *"Mae ein canllawiau ynglyn â chymorth ariannol yn ofynnol bod cynrychiolydd yn bresennol."*

Page 1489 *(Chair's Welcome*): The following recommendation was confirmed by council: that the donations to the charities/organisations which did not send a representative to attend the Presentation Ceremony be withheld in accordance with the following which was stipulated on the invitation: *"The council reserves the right to withhold payment in the event of non-appearance of recipient."*

14. Personél / Personnel.

Nid oedd materion i'w trafod.
There were no matters to discuss.

15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) **Y Cyng. / Cllr Catrin Miles:**

(i) **Gwasanaeth Casglu newydd – Heol Llandudoch. Nodwyd.**
New Street Collection Service – St Dogmaels Road. Noted.

(ii) **Ceubyllau ar Iard yr Orsaf**.

Potholes on Station Yard.

Cllr Miles agreed to pursue the information from the Estates department of the county council. Information is expected from Mr Ken Edwards following his communication with the Land Registry.

(b) **Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:**

(i) **Postyn golau ger siop Aldi.**
Disgwylir gwybodaeth oddi wrth Mr Simon Bray, swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir.

Lamp post at the rear of Aldi.
Information is awaited from Mr Simon Bray, the county council street light officer.

(c) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Rac parcio beiciau, Rhiw Grosvenor, wedi torri.**

Mae'r rac wedi ei chywiro bellach.

Broken bike rack at the top of Grosvenor Hill.
The rack has since been repaired.

(ii) **Diweddariad am gais grant y Maes Sgrialu.**

Mae'r cytundeb wedi cyrraedd oddi wrth adran gyfreithiol y cyngor sir. Telir 80% (£41,600) o'r pris am brynu a sefydlu'r offer gan Gyngor Sir Ceredigion. Bydd y gweddill o'r gost, sef 20% (£10,400), i'w dalu o goffrau Cyngor Tref Aberteifi.

Update of the Skateboard Park grant application.

The Maintenance Agreement document has been received from the county council. 80% of the cost (£41,600) associated with purchasing, procuring and installing the play equipment at the park will be paid by Ceredigion County Council. The remaining 20% of the cost (£10,400) will be paid by Cardigan Town Council.

(iii) **Cwyn am gyflwr pen uchaf Stryd y Santes Fair.**

Cytunodd y Cyng. Richard Jones edrych ar gyflwr y baneri sydd ar gael er mwyn eu gosod yno.

Complaint regarding the untidy condition of Upper St Mary Street.

Cllr Richard Jones agreed to assess the condition of the available bunting to place at this junction.

(d) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**

(i) **Palmant ar Ffordd Gwbert ger cyffordd Heol y Ferwig.**

Eglurodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai palmant yn cael ei osod ar y lleoliad yn dilyn datblygiad tai Llwynpiod.

Footpath on the Gwbert Road near the Ferwig Road junction.

Cllr Adams-Lewis confirmed that a condition of the Llwynpiod housing development includes that a footpath be developed at this point.

(e) **Y Cyng. / Cllr Graham Evans:**

(i) **Boncyffion coed yn yr afon Teifi.**

Cytunodd y Cyng. Miles hel rhagor o wybodaeth am dorri'r boncyffion sydd wedi eu gadael yn yr afon a sydd yn beryg i gychod.

Tree branches in the Teifi river.

Cllr Miles agreed to pursue the matter and report the danger of tree trunks in the river which are potentially hazardous to boats and other river users.

(f) **Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis:**

(i) Y Ddraig Goch tu allan i Neuadd y Dref.

Cafwyd adroddiad gan yr heddlu bod baner y Ddraig Goch yn amharu ar effeithiolrwydd y camerâu teledu cyfyng tu allan i Neuadd y Dref. Cytunwyd bod y Cynghorwyr Adams-Lewis, Shan Williams a Clive Davies yn cynnal cyfarfod safle gyda'r heddlu i ddatrys y mater.

The Red Dragon at the Guildhall.

It has been reported by the local police that the newly-installed CCTV camera at the Guildhall is impeded by the Welsh Dragon flag. It was recommended that a site meeting be organised with Cllrs Adams-Lewis, Clive Davies and Shan Williams in attendance to resolve the matter.

(ii) **Gan fod pedwerydd tymor y Cynghorydd John Adams-Lewis fel maer Tref Aberteifi yn dirwyn i ben, dymunodd ddiolch i'w gyd-gynghorwyr a'r clerc am eu cydweithrediad a'u cymorth parod i wneud ei flwyddyn yn esmwyth. Diolchodd hefyd i Mrs Llinos Davies, cyfieithydd ar y pryd y cyngor, am ei gwaith rhagorol, ac i Mr Dave Parkinson, gohebydd y Tivy-Side am ei adroddiadau rheolaidd a chywir yn y wasg leol. Dymunodd flwyddyn lewyrchus a hapus i'w olynydd, y Cyng. Shan Williams.**

This being the Mayor's final full council meeting, he wished to thank members and the clerk for the co-operation and assistance he had experienced during his fourth term as Town Mayor. He also thanked Mrs Llinos Davies, the simultaneous translator, for her excellent service and also Mr Dave Parkinson for his regular and accurate reporting of council matters in the Tivy-Side. He wished his successor, Cllr Shan Williams, a happy and prosperous year in office.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.56yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.56pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....